OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 659 (Cy.97)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*8 Ebrill 2011*

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a) ac 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 51(3)(**3**) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007(**4**).

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011 a daw i rym ar 8 Ebrill 2011.

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 140(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ac Atodlen 31 iddi (p.31); a chan adran 111(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21). Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan baragraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16(1)(a) a 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Diwygiwyd adran 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) gan erthygl 9(1) o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy.243)) a chan baragraffau 13 a 21 o Atodlen 1 iddo; gan adran 111(2)(a) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c. 21); a chan erthygl 2(1) o Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080) a pharagraffau 18 a 21(c) a (d) o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) O.S. 2007/854 (Cy.78), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy.101).